

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Hydref 16 ddeg - 2013
am 7.30 o'r gloch.

1. Presennol - Cyngorwyr Maldwyn Williams (Cadeirydd, MW), Rhian Hughes (RH), Geraint Parry (Clerc), Gill Cheverton (GC), Lewis Davies(LD) a Myrddin Roberts (MR)

2. Ymddiheuriadau - Cyng. Dafydd Pritchard, Alwyn Rowlands, Carwyn Jones a Alwena Roberts

3. Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 o Fedi fel rhai cywir gan Cyng. R Hughes, eilio gan Cyng. G Cheverton.

Dechreuodd y cyfarfod gyda adroddiad gan y Swyddog Morwrol John Owen.

Penderfynwyd cynnal y cyfarfod blyneddol yn ein cyfarfod nesaf, mis Tachwedd.

4. Materion yn codi o'r Cofnodion

Dim materion yn codi

5. Adroddiad gan y Cyngorwyr

LD - wedi ymuno a phwyllgor cynllunio, cais Eglwys St Iestyn wedi ei ganiatáu, wrth longyfarch adran cynllunio am weithio mor galed ar y cais. Cwestiwn nawr lle mae arian yn dod i wneud y gwaith, tebyg fod yr arian wedi mynd at Cynllun Llanbedrgoch. Clerc i edrych am dystiolaeth. Cwestiynau mawr wedi ei godi ynglŷn ar swyddi i ail strwythuro sydd wedi ei hysbysebu diweddar gan y Cyngor Sir gyda chyflogau o tua £60k yr un. Dau bwyllgor sydd nawr yn bydoli, un mewnol ac un allanol i Craffu, felly trwy ail-strwythuro maent yn creu byrddau o fewn y pwyllgorau. Teimlo nad i'w hyn yn gweithio'n iawn oherwydd nid ydym yn cael holi yn iawn. Dim ond o 30 cyngorwyr sydd, nid ydi hyn yn ddigon i fynd ar y holl bwyllgorau. Rhiw 4 cyngorydd fydd ar y byrddau newydd. Awgrymu fod angen cyfanswm o tua 33 o Cyngorwyr.

MR – Mae'r Cyngor Cymuned wedi gwrthwynebu'r cais Tŷ Gwyn, sydd nawr wedi ei ganiatáu. Lle fydd y fynedfa newydd yn cael eu creu? Mae'n amlwg nid oes unrhyw galw am y cais. Maent wedi trio gwerthu'r safle a meddu.

Gyda rhai ceisiadau lle mae mynediad i lôn fel enghraifft, asiant i'r ymgeisydd sydd yn gwneud yr arolwg mewn adeg o'r dydd pan fydd y traffig yn dawel. Adran cynllunio yn derbyn y canlyniadau yma.

RH -mae rhai ymgeiswyr yn Llanddona wedi cael ei troi lawr gan adran priffyrdd oherwydd byddai'n rhaid iddynt greu manau pasio ar y ffordd.

6. Datgan Diddordeb

Cyng. L Davies a G Cheverton ar y cais 22C96H.

7. Ceisiadau Cynllunio

- Cais 22C96H - Cais llawn ar gyfer adnewyddu cais rhif 22C96B ar gyfer gosod system trin carthffosiaeth ar dir ger Wern Hall, Llanddona - dim gwrthwynebiad.

Er Gwybodaeth

- Cais 22C94G- Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Yr Orsedd, Llanddona wedi ei caniatáu
- Cais 22C55B - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Belen Wen, Llanddona – wedi ei caniatáu.

8. Clawdd Mynydd Crafoed

Leah wedi derbyn cais gan Mr a Mrs Shamash, Mynydd Crafoed, wrth ofyn i gael gosod y gwrych gan y byddai hyn yn fwy cost effeithiol yn y tymor hir - £290. Dilyn derbyn map o'r safle gan Leah, penderfynwyd ymweld ar safle bore Sadwrn 19/10/13.

9. Cyfrifon - cytunwyd i dalu:-

- Cyngor Sir Ynys Môn, costau etholiad Mai 2013 - £270
- Hacker Young, awdit 2012/13 - £156
- Cyflog y Clerc, Gorffennaf – Medi - £392.10
- Canolfan Hamdden Biwmares, rhodd 2013/14 - £700
- Hurio Ystafell Ysgol, Mehefin, Gorffennaf, Medi - £60

10. Gohebiaeth

Llythyr IW Jones – trosglwyddo ffeiliau Fynwent

Apêl - therapi Plant Bobath
 Apêl - Eisteddfod Genedlaethol Sir Gar
 Apêl - Cofeb Fflandrys
 Apêl - Shelter
 Llythyr - Hacker Young, dogfen Awdit 2012/13
 Llythyr - Ysgol Llanddona, Carwyn Jones
 Llythyr- cofnodion blynyddol Neuadd y Pentre', Llanddona
 Llythyr - Cyngor Sir, Fforwm Cynllunio 10/10/13
 Llythyr - Un Llais, cyfarfod 9/10/13 Bull, Llangefni 7yh
 Llythyr - Able, Gofal Cartref
 Llythyr - Cyfoeth Naturiol Cymru
 Llythyr - Llwybrau 15+61
 Llythyr - Llwybr cyhoeddus Glan Halen
 e-bost - Leah Williams, Mynydd Crafoed
 e-bost - Leah Williams, Llwybr Marchogaeth
 e-bost - Ed Henderson, coed ger eiddo Pensarn
 e-bost - cost cynnal a chadw gwefan

11.UFA:

- Traffic ar Traeth Llanddona - John Owen, Swyddog Morwrol y Cyngor Sir yn adrodd - bobl sy'n ymweld ar traeth wedi cynyddu eleni. Mae'r tir i gyd yn breifat, yr unig reolaeth sydd gan y Cyngor Sir i'w'r briffordd, maes parcio, siop ar doiled. Cyn belled ag yr ydym yn deall, mae'r tir o Bentraeth hyd at Landdona yn berchen yn bennaf i'r tirfeddianwyr sy'n byw gerllaw. Yr unig gyngor gallaf ei gynnig yw os ydi'r tirfeddianwyr i gyd yn caniatáu'r Cyngor Sir i osod rheolau ar yr ardal, neu fod y tirfeddianwyr yn gosod rheolau. Teimlad y bydd rhai perchnogion yn gosod cerrig mawr i rwystro mynediad yn y dyfodol, ond perygl i'w fydd hyn yn rhwystro parcio. Gwaith wedi ei wneud yno rhai blynyddoedd yn ôl gan NACRO. Mae cyfyngiad "dim parcio" o'r dŵr uchel cymedrig i lawr at y môr. Wedi trafod y materion yma gyda James Percival. Hefyd, mae'r Cyngor Sir yn ailwampio ei is-ddeddfau Glan Môr ynglŷn â chychod pleser, lle ydym yn mynd i ganiatau "Kite bugging, o Bentraeth hyd at Wern y Wylan.
- RH - ffosydd ger y ffordd at yr Eglwys sydd wedi cael ei agor diweddar. Dilyn y glaw trwm, nid yw'r draeniau wedi eu hagor ddigon, methu cymryd y llif.
- Cyngor Sir yn ymchwilio i gynnig ychwanegu hawl dramwy gyhoeddus o bwynt ger eiddo Glan Halen at pwynt ger terfyn Lôn Wern. Ymchwiliad hwn yn seiliedig ar ddarganfod tystiolaeth ddogfennol. Tebygrwydd yw mai camgymeriad yn ystod y broses o farcio'r map rhagweiniol gan y Cyngor Plwyf ar ddechrau'r 1950au oedd yn gyfrifol. Penderfynwyd derbyn yr estyniad i'r llwybr.
- Cyngor Sir wedi anfon rhybudd o estyniad ynglŷn â gorchymyn i gau llwybr troed rhif 15 a llwybr rhif 61 dros dro, o 19/04/13 hyd nes 19/4/14. Angen y gorchymyn er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y cyhoedd oherwydd tirlithriad ar y llwybr. Mae son am symud y llwybrau yma yn y dyfodol a hefyd mae hollt mawr yn y ffordd. Os angen barn arbenigwr ar hyn? Cyng. L Davies i drafod y mater gyda'r Cyngor Sir.
- Wedi derbyn cais gan Mr Parry, Pensarn i gael torri'r coed helyg ger yr eiddo sydd yn cuddio'r haul. Clerc wedi cael cyngor gan Ed Henderson, swyddog Cyngor Sir. Penderfynwyd ymweld ar safle bore Sadwrn 19/10/13.
- RH - mae cymaint o goed helyg yn gordyfu o gwmpas y pentre'. Clerc i ofyn a bydd Leah Williams Menter Môn ar gael i gyfarfod nesaf.
- Llwybr ceffylau - wedi derbyn y caniatâd i wneud y gwaith gan NRW.
- Clerc wedi derbyn pris am i greu, gwefan i'r Cyngor Cymuned. Clerc i roi gwahodd i'r dylunydd.
- Cytunwyd i roi £100 tuag at apêl cofeb Fflandrys.
- MR - yn adrodd o'r cyfarfod Un Llais Cymru.

12.Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.45 o'r gloch.

Cyfarfod nesaf 20/11/13 am 7.30.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad